

Ynni lleol: gweledigaeth i rymuso cymunedau

Ein sefyllfa heddiw: Costau ynni a newid hinsawdd

Mae pobl yn parhau i wynebu ansicrwydd pan ddaw at ynni. Mae'r cynnydd diweddar mewn prisiau, a waethygwyd gan ein dibyniaeth ar danwyddau ffosil a'r ffordd gymhleth y mae ein marchnadoedd ynni'n gweithio wedi dangos natur anwadal ein biliau ynni, gan wthio 45% o gartrefi Cymru i mewn i dlodi. Mae'r IPCC (2021) yn dweud wrthym fod effeithiau newid hinsawdd yn "gyflym, helaeth ac yn dwysáu". Fodd bynnag, pe bai'r newidiadau angenrheidiol sy'n rhan o'r broses o bontio at sero net yn arwain at waethygwyd pellach mewn tlodi tanwydd, neu'n anwybyddu anghenion cymunedau, mi fuasai'r broses bontio yn elfennol anghyfiawn. Mewn sefyllfa debyg, byddai'r gwrthwynebiad i'r datblygiadau'n ddealladwy ac yn gyfawn.

Mae Ynni Cymunedol Cymru eisiau sicrhau nad yw datgarboneiddio ein system ynni a phontio tuag at sero net yn ddull arall i gorfforaethau wneud elw anferthol o'n hadnoddau naturiol, gan roi dim arian na rheolaeth yn ôl (heblaw am fuddion cymunedol mewn rhai achosion) i'r cymunedau y maent yn echdynnu'r hadnoddau naturiol wrthynt.

Mae ein cymunedau wedi gweld dirywiad yn eu gwead cymdeithasol dros yr hanner canrif diwethaf. Mae'r ffyrdd y mae ein cymunedau'n rhyngweithio wedi newid, ac mae'r gwasanaethau cyhoeddus oddi fewn iddynt wedi gwaethygwyd. Mae ynni cymunedol yn cynnig cyfle i adfywio'r ysbryd cymunedol sydd wedi aros yn driw yng Nghymru ers canrifoedd a rhoi iddo bwrrpas o'r newydd.

Mae cymunedau Cymru wedi bod yma o'r blaen. Mae'n rhaid i ni ddysgu ein gwersi o'n hanes. Mae'r methiant i sicrhau bod y cyfoeth a grewyd gan lo, llechi, copr a thin yn cael eu cadw yn y cymunedau lle ffynnodd y diwydiannau hynny wedi gadael y cymunedau o'u hamgylch â rhai o'r lefelau uchaf o dlodi yng Ngorllewin Ewrop heddiw.

Dyma gyfle unwaith mewn oes i greu newid sylfaenol i strwythur ein cymdeithas. Os ydym yn gweithredu yn y dull cywir, ac yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda pherchnogaeth gymunedol o asedau ynni, gallwn sicrhau'r buddion economaidd am genedlaethau i ddod.

Nid yw'r trywydd hyn o ddirwyriad yn anorffod i'n cymunedau. Mae'n bosib i ni newid y stori.

Ynni cymunedol – ein gwerthoedd

Mae'r sector ynni cymunedol yng Nghymru yn credu bod gwerthoedd ynni cymunedol yn creu cymunedau cryf, annibynnol a chymdeithas well.

1. Mae ynni cymunedol yn fwy nag elw. Mae'n adeiladu cymunedau. Mae elw'n cael ei aifuddsoddi i mewn i'n cymunedau ac yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy – yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol..

2. Mae nifer o grwpiau ynni cymunedol yn gydweithfeydd neu'n fentrau cymdeithasol ac yn gweithio yn unol â gwerthoedd cydweithredol. Rydym yn gweithio ar y sail bod cydweithio'n well na chystadlu.
3. Rydym yn adeiladu cymunedau annibynnol, hunan hyderus, a hunangynhaliol fel bod pobl yn gallu amddiffyn y cyfleusterau sydd ganddynt yn ystod amseroedd lle mae toriadau i wariant cymdeithasol. Mae perchnogaeth gymunedol yn atal defnydd echdynol o adnoddau naturiol Cymru.
4. Dylai pawb fod yn gallu fforddio'r ynni sydd ei angen arnynt, ac rydym yn gweithio tuag at y nod hwn. Mae nifer o'n grwpiau'n cyfrannu'n ymarferol at helpu pobl drwy'r argyfwng costau byw.
5. Rydym yn credu mewn grym amrywiaeth ac yn chwilio am ddulliau i ymgysylltu â phobl o gefndiroedd nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni cymunedol yn hanesyddol, yn enwedig felly rheini sydd o dan anfantais economaidd.
6. Rydym yn prynu'n lleol ac yn cefnogi'r economi gylchol.
7. Roeddem yn arddel egwyddorion, amcanion, a dulliau gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y cyntaf o'i fath yn y byd) cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei llunio.
8. Rydym yn sicrhau nad yw'r rheolaeth dros brosiectau wedi'i chanoli, ac yn ymddiried mewn cymunedau i wneud yr hyn sydd orau iddyn nhw yn lleol.

Gellir canfod esiamplau o grwpiau ynni cymunedol a'r gwerthoedd maent yn eu harddel yn ein hadroddiad cyflwr y sector [state-of-the-sector-2023.pdf \(communityenergy.wales\)](#)

Rydym o'r farn y buasai modd i'r gwerthoedd hyn fuddio rhagor o gymunedau a'n cymdeithas gyfan mewn amryw o ddullai pe bai twf mewn ynni cymunedol, a bob pawb, ym mhob man yn gallu cael mynediad ato.

Mae hyn yn golygu newid y system.

Dychmygu system gyda phobl wrth ei wraidd.

Dychmygwch system ynni sydd wedi'i ddylunio ar gyfer anghenion pobl a'r blaned. Dychmygwch rwydwaith ddatganoledig o gynhyrchwyr ynni lleol o dan berchnogaeth pobl leol, yn darparu ynni i ganoedd neu filoedd o gartrefi a busnesau o fewn pob ardal is-orsaf trydan.

Dychmygwch adeiladau effeithlon o ran ynni, lle mae pobl yn gallu bod yn ddoeth am eu defnydd ynni drwy ddefnyddio data i fonitro cynhyrchiad o fewn eu hardal is-orsaf. Gallent defnyddio ynni'n rhatach pan fo'r galw amdano'n is, a/neu phan fo lefelau cynhyrchu'n uchel. Gallent wneud penderfyniadau i leihau eu biliau drwy ddefnyddio eu hynni ar yr adegau hyn, neu gwario mwy i ddefnyddio trydan o'r grid yn ystod cyfnodau o gynhyrchiad isel neu phan fo'r galw'n uchel.

Dychmygwch bob dinesydd yn eiddo ar ran o'r asedau ynni sy'n cynhyrchu'r hyn maent yn eu defnyddio, ac yn derbyn llog ar eu buddsoddiad. A dychmygwch yr elw neu'r arian dros ben o'r



cynhyrchiant hwn yn cael ei ddychwelyd, a'i ailfuddsoddi mewn rhagor o asedau cymunedol, rhagor o brosiectau ynni, neu welliannau cymunedol ac amgylcheddol.

Yn wahanol i danwyddau ffosil, mae modd datganoli technoleg ynni adnewyddadwy a'i gynhyrchu unrhyw le, ar unrhyw faint – gan alluogi dull gyfangwbl wahanol o strwythuro ein system ynni. Dyma gyfle i'n cymunedau achub y blaen a chymryd rheolaeth dros eu dyfodol.

Byddai ynni lleol rhatach o dan berchnogaeth gymunedol leol yn creu cysylltiad uniongyrchol rhwng dinasyddion â'u hynni. Bydd ynni lleol yn torri biliau, gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Byddai hyn, gyda'r buddion ychwanegol sy'n dod o berchnogaeth gymunedol, yn helpu lleihau gwrthwynebiad lleol i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, gan alluogi rhagor i gael eu hadeiladu, ac yn eu tro cynyddu dygnwch y system ynni.

Byddai system lleol, ddatganoledig fel hyn yn lleihau'r pwysau ar y grid trosglwyddo, hybu defnydd doeth o ynni a lleihau allyriadau. Gan fod ynni cymunedol yn nid-er-elw, neu'n fwy-nag-elw, byddai sector mwy yn darparu rhagor o gyllid ar gyfer prynu a datblygu rhagor o asedau cymunedol, cyfleusterau cymunedol, ardaloedd gwyrdd, bioamrywiaeth a chyfrannu tuag at adeiladu cronfa cyfoeth cymunedol – pot o gyllid ar gyfer ailfuddsoddi mewn prosiectau ynni cymunedol.

Ein gofynion:

Mae'r sector ynni cymunedol eisiau gweld deddfwriaeth yn cael ei gyflwyno cyn gynted a phosib o dan lywodraeth newydd San Steffan i greu hawl gyfreithiol i gael mynediad at ynni lleol.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr etholiad gefnogi'r ddeddfwriaeth hon a gwthio am osod targedau i bobl i fod yn gallu derbyn canran gynyddol o'r ynni maent yn ei gynhyrchu o gynhyrchiant lleol dros amser, ar dariff lleol teg sy'n cymryd mewn i ystyriaeth yr arbedion i isadeiledd y grid.

Contractau Ynni Cymunedol a'r Sector Gyhoeddus

Er mwyn cychwyn system leol fel hon, mae angen cefnogaeth wleidyddol ar y sector ynni cymunedol i adeiladu partneriaethau gyda'r sector gyhoeddus fel bod cyrff sector cyhoeddus yn prynu eu hynni o ddarparwyr ynni cymunedol lleol. Byddai'r cynnydd hwn yn y galw am ynni cymunedol yn arwain at ddatblygu rhagor o asedau ynni cymunedol. Drwy Gytundebau Prynus Ynni "llawes" ("sleeved PPAs"), gwifren breifat neu unrhyw fecanwaith arall posib, dylai adeiladau sector cyhoeddus sy'n defnyddio llawer o drydan geisio derbyn y gyfran uchaf bosib o'u hynni gan ffynhonellau lleol ar lefel is-orsaf. Byddai hyn yn lleihau biliau sector cyhoeddus ac yn darparu incwm i grwpiau ynni cymunedol – oherwydd ni fydd angen i'r costau trawsgludo gael eu talu. Byddai ailfuddsoddi'r elw yn creu rhagor o grwpiau ynni adnewyddadwy, rhagor o osodiadau a rhagor o ynni. Dylid galluogi cyrff sector cyhoeddus i adrodd 100% o'r ynni adnewyddadwy a brynwyd fel hyn yn ddi-garbon, NID fel ffactor carbon y grid fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.



Ein gofynion:

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr yn yr etholiad i gefnogi gosod targedau ar gyfer ynni sydd wedi'i gaffael gan y sector cyhoeddus i ddod o ffynhonellau lleol neu gymunedol, gan gynyddu dros amser.

Goresgyn Rhwystrau Ariannol – Adeiladu Cronfa Cyfoeth Cymunedol

Mae nifer o rwystrau yn atal twf ynni cymunedol, a chyllid sy'n cael ei adnabod fel un o'r rhai pennaf.

Mae gwledydd eraill – Norwy er enghraifft, wedi adeiladu cronfeydd cyfoeth gwladol o'r arian a gynhyrchwyd gan ddatblygiadau tanwyddau ffosil hanesyddol. Mae hyn werth tua £225,000 fesul dinesydd yn Norwy heddiw.

Gan ddilyn yr un egwyddor, gellir creu cronfa gyfoeth **cymunedol** a'i chynnal drwy gyflwyno ardoll newydd fel '**rhent ar adnoddau naturiol**'. Byddai datblygwyr sy'n defnyddio gwynt, solar, hydro neu'r môr yn talu ardoll ar eu trosiant i wneud yn iawn am ddefnyddio'r adnoddau naturiol sy'n glanio ar diriogaeth Cymru. Yn wahanol i'r gronfa yn Norwy sy'n cael ei defnyddio ar gyfer gwariant cyffredinol gan y llywodraeth, byddai Cronfa Cyfoeth Cymunedol Cymru yn cael ei gwarchod ar gyfer ailfuddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni a datblygu cynhyrchiant ynni cymunedol newydd.

Ynni cymunedol – buddion perchnogaeth i bawb

Derbyniodd y sector ynni cymunedol hwb gan y tariff cyflenwi. Roedd hyn yn gymhelliant i gynhyrchwyr ar raddfa fach i werthu eu hynni i'r grid cenedlaethol. Daeth y tariff cyflenwi i ben yn 2019. Sefydlwyd y rhan fwyaf o fusnesau ynni cymunedol sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod hwn.

Drwy gyfuniad o fenthyciadau, grantiau a chynigion cyfranddaliadau, mae cyfalaf wedi cael ei godi yn draddodiadol ar y ddealltwriaeth y byddai'r arian sy'n cael ei gynhyrchu'n ddigon i wasanaethu'r cyllid cychwynnol hwn, a chreu elw bychan ar gyfer ailfuddsoddi.

Mae cyfranddaliadau cymunedol yn galluogi pobl i fod yn gyfranogwyr mwy uniongyrchol mewn ynni cymunedol. Gyda chyfranddaliadau, mae pobl yn rhannu perchnogaeth. Maent yn derbyn swm ariannol bychan fel llog ar eu buddsoddiad ac yn cael hawliau pleidleisio i benderfynu sut mae unrhyw arian dros ben yn cael ei wario.

Er bod rhai grwpiau ynni cymunedol wedi ceisio eu gorau drwy brynu cyfranddaliadau ar ran pobl ar incwm isel gyda'u harian dros ben, mae'r rhan fwyaf o bobl sydd heb y gallu – yn cynnwys y rhai mewn tlodi tanwydd, methu cymryd rhan a phrynu cyfranddaliadau.

Mae'r sector ynni cymunedol eisiau i bawb sydd am fod yn rhan o'r mudiad ynni cymunedol, ym mhob cymuned, allu gwneud hynny. Hoffem weld y Gronfa Cyfoeth Cymunedol yn cefnogi'r rheini ar incwm



isel neu mewn tlodi tanwydd i fod yn eiddo ar gyfranddaliadau ynni cymunedol.

Drwy alluogi rhagor o ddinasyddion i fod yn eiddo ar gyfranddaliadau cymunedol mewn prosiectau lleol, wedi'u hariannu gan y gronfa cyfoeth cymunedol, byddai modd i ragor o bobl gael mynediad ato, cymryd rhan ynddo, a deall buddion a grym democraidd perchnogaeth gymunedol o ynni.

Ein gofynion:

Mae'r sector ynni cymunedol eisau gweld diwygiadau i gyflwyno "rhent ar adnoddau naturiol" newydd ar gyfer pob datblygiad ynni a seilwaith ynni, gyda'r cyllid sy'n cael ei gynhyrchu yn cyfrannu at gronfa cyfoeth cymunedol newydd. Byddai'r gronfa hon yn cael ei defnyddio i ailfuddsoddi mewn rhagor o gynlluniau ynni cymunedol ac effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys drwy gefnogaeth i'r rhai ar incwm isel a grwpiau gwirfoddol fod yn eiddo ar gyfranddaliadau ynni cymunedol.

Mae aelodau a chefnogwyr grwpiau ynni cymunedol yn galw ar yr holl ymgeiswyr etholiadol i ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r sector drwy danysgrifio i'n gofynion a'u gweithredu os ydynt yn ennill sedd.

Ynni Cymunedol. Dyma yw ein hamser ni.

Local energy: a vision to power up communities

Where we are: Energy costs & climate change

People continue to face uncertainty when it comes to energy. The recent price hikes exacerbated by our dependence on fossil fuels and the complex way in which the energy markets work has shown the volatility of our energy bills, pushing 45% of Welsh households into poverty. The IPCC (2021) tells us that effects of climate change are "rapid, widespread and intensifying". However, if the necessary changes that will come with the push to net zero worsen fuel poverty or ignore communities, then the transition will be fundamentally unjust, raising justified opposition.

Community Energy Wales wants to ensure that decarbonising our energy system and transitioning to net zero is not another means for corporations to make vast profits from our natural resources, giving little or no return or agency (aside from community benefits in some instances) to the communities from which those natural resources are extracted.

Our communities have seen a breakdown in their social fabric over the last half century. The way our communities interact has changed, and the public services within them have deteriorated. Community energy offers a chance to revitalise the community spirit that has held true in Wales for centuries and give it a new purpose.

Welsh communities have been here before. We must learn the lessons from our history. Failure to ensure that the wealth created from coal, slate, copper, and tin was retained in the communities where those industries flourished has left those communities in some of the worst deprivation in Western Europe today.

This is a once in a generation chance to fundamentally change how our society is structured. If we get this right and tackle the climate crisis with community-ownership of energy assets, we can lock in the economic benefit for generations to come.

Our communities do not have to carry on this trajectory of decline. We can change the story.

Community energy - our values

The community energy sector in Wales believes that the values of community energy make for strong, independent communities and a good society.

1. Community energy is more than profit. It is community-building. All profits are reinvested into communities and making them sustainable - economically, socially, environmentally, and culturally.
2. Many community energy groups are cooperatives or social enterprises and work to cooperative values. We work on the basis that cooperation is better than competition.

3. We are building independent, self-confident, and self-sufficient communities so that people can protect the facilities they have during times of public spending cuts. Community ownership prevents the extractive use of Wales's natural resources.
4. Everyone should be able to afford the energy they need, and we work towards that outcome. Many of our groups contribute practically to helping people manage the cost-of-living crisis.
5. We believe in the power of diversity and are actively seeking ways to engage people from backgrounds not traditionally associated with community energy, especially those who are economically disadvantaged.
6. We buy locally and support circular economies.
7. We were advocating the principles, goals, and ways of working in the Welsh Wellbeing and Future Generations Act (the first of its kind in the world) before the legislation was conceived.
8. We ensure that control over projects is not centralised, and trust communities to do what is best for them locally.

Examples of community energy groups and the values they live by can be found in our state of the sector report [state-of-the-sector-2023.pdf \(communityenergy.wales\)](#)

We believe that these values could benefit more communities and our whole society in a multitude of ways if community energy could be upscaled and accessed by everyone, everywhere.

That means changing the system.

Imagining a people-centered energy system

Imagine an energy system that was designed for the needs of people and planet. Imagine a decentralised, localised network of small energy generators owned by local people, feeding hundreds if not thousands of homes and businesses within every electricity sub-station area.

Imagine energy-efficient buildings, where people were able to be wise about their electricity usage by using data to monitor the generation within their sub-station area. They could consume cheaper energy at times when demand was low and/or when generation levels were high. People could make choices to lower their bills by using energy at these times or pay more to use grid-transmitted electricity during peak or at times of lower generation.

Imagine every citizen part-owning the energy assets that generate what they consume and receiving a return on their investment. And imagine the profits or surpluses from that generation being returned for reinvestment into more community assets, more energy projects or community or environmental improvements.

In contrast to fossil fuels, renewable technology can be decentralised and produced anywhere at any scale – allowing for a completely different way of structuring our energy system. This is an opportunity for our communities to take initiative and control their energy future.



Cheaper local energy linked to locally owned community energy generation would give local citizens a direct interest in their energy. Local energy will cut bills, thereby helping to combat fuel poverty. This, together with the additional benefits that come with community ownership, will, we believe, help to reduce localised opposition to renewable energy developments, enabling more to be built, in turn increasing overall energy system resilience.

A localised or decentralised system like this would take pressure off the overloaded transmission grid, promote the wise use of energy and cut emissions. As community energy is not-for-profit or more-than-profit, a bigger sector would provide more funds for purchasing and developing further community assets, community facilities, green spaces, biodiversity and to contribute towards the building of a community wealth fund - a finance pot for reinvestment into new community and energy projects.

Our asks:

The Community Energy Sector wants to see legislation brought at the earliest opportunity under the new Westminster government to create a legal right to access local energy.

We are asking election candidates to support this legislation and to push for the setting of targets for people to be able to receive a growing percentage of the energy they consume from local generation over time, at a fair local tariff reflecting the savings to grid infrastructure.

Community Energy Public Sector Contracts

To kickstart a local system like this, the community energy sector needs political support to build partnerships with the public sector so that public sector bodies purchase their energy from local community energy providers. This boost in demand will in turn encourage more development of community owned energy assets. Through sleeved Power Purchase Agreements (PPAs), private wire and any other available mechanisms, high energy-using public sector buildings should source as much of their energy use as possible from local sources at sub-station level. This would reduce public sector energy bills and provide an income to community energy groups - because transmission costs would not need to be paid. The reinvestment of profits would create more renewable energy groups, more installations, and more energy. Public sector bodies must be enabled to report 100% renewable energy purchased in this way as carbon free, NOT at grid carbon factor as currently required.

Our asks:

We are asking election candidates to support the setting of targets for publicly procured energy to come from local or community sources, rising over time.



Overcoming Financial Barriers - Building a Community Wealth Fund

There have been numerous barriers standing in the way of the scaling up of community energy and finance has been identified as one of the biggest ones.

Other countries - most notably Norway, have built sovereign wealth funds from their past fossil fuel extraction. This is worth around £225,000 per citizen today.

Taking the same principle, a **community** wealth fund can be created and sustained through the introduction of a new levy as a '**rent on natural resources**'. Developers using wind, solar, hydro or the seas will pay a levy on their turnover to compensate for the use of the natural resources which land on the territory of Wales. Unlike the Norwegian wealth fund, which is used for general government public expenditure, the Welsh Community Wealth Fund will be ringfenced for reinvestment in energy efficiency measures and new community renewable energy generation.

Community energy - the benefits of ownership for all

The community energy sector was given a boost by the feed-in tariff. This was an incentive for small scale energy generators to sell their energy or surplus energy into the national grid. The feed in tariff ended in 2019. Most community energy businesses currently operating were established during the feed-in tariff period.

Usually through a combination of grants, loans and community share offers, capital has traditionally been raised on the basis that the return would cover the servicing of that capital and make a small profit for reinvestment.

Community shares enable people to be more direct participants in community energy. With shares, people are part-owners. They receive a small annual return on their investment and get voting rights to decide how surpluses are spent.

Despite various excellent schemes from some community energy groups (e.g. purchasing shares on behalf of people on low incomes with their surpluses), most people without the means - including all those in fuel poverty, are unable to participate and purchase shares.

The community energy sector wants everyone who wants to, in all communities, to be able to participate in the community energy movement. We would like to see the Community Wealth Fund support those on low incomes and in fuel poverty to become community share owners.

By enabling more citizens to have the option to own community shares in local projects funded through the community wealth fund, more people can access, participate in, and understand the benefits and democratising power of community ownership of energy.



Our asks:

Community energy wants to see reform to introduce a new, additional “rent on natural resources” for all energy and energy infrastructure developments with the funds raised contributing to a new community wealth fund. This fund will be used to reinvest in more community energy and energy efficiency schemes, including via support for those on low incomes and voluntary groups to become community share owners.

Members and supporters of community energy groups call upon all election candidates to provide practical support for the sector by signing up to our asks and acting upon them if elected.

Community Energy. Our time is now.

